Cyn / Ar ôl – *Before / After*

Themau - *Themes*

Cyn ac ar ôl. *Before and after.*

Patrymau laith - *Language patterns*

Cyn ...	*Before ...*
Cyn gadael am y coleg	*Before leaving for college*
Cyn cinio	*Before lunch*
Ar ôl ...	*After ...*
Ar ôl gorffen glanhau	*After finishing cleaning*

Pan dyn ni eisiau dangos pwy sy'n gwneud y weithred, rhaid defnyddio, i fi ..., i ti ... + treiglad meddal
When we want to show who is doing the action, you must use, i fi ..., i ti ..+ a soft mutation

Ar ôl **i fi o**rffen	*After I finish*
Ar ôl **i ti o**rffen	*After you finish…*
Cyn **iddo fe dd**weud 'ta-ta'	*Before he says 'ta ta'*
Cyn **iddi hi fynd**	*Before she goes*
Cyn **i ni dd**echrau pacio	*Before we start packing*
Cyn **i chi dd**echrau poeni	*Before you start to worry*
Cyn **iddyn nhw f**ynd	*Before they go*

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Dyn ni'n gallu defnyddio'r patrymau yma yn y presennol, gorffennol, a'r dyfodol.
We can use these patterns in the present, past, and future.

Cyn i fi fynd i'r cyfarfod, dw i'n mynd i gael cinio.
Before I go to the meeting, I'm going to have lunch.

Cyn i fi fynd i'r cyfarfod, ces i ginio.
Before I went to the meeting, I had lunch.

Ar ôl i fi fynd i'r gwely, bydda i'n darllen llyfr.
After I go to bed, I'll read a book.

Ar ôl i fi fynd i'r gwely, darllenais i lyfr.
After I went to bed, I read a book.

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*

Atebwch y cwestiynau hyn. Bydd pob ateb yn dechrau gyda 'cyn' neu 'ar ôl'.
Answer these questions. Each answer will begin with either 'cyn' or 'ar ôl'

Pryd bydd Gethin yn mynd am beint?
Pryd mae ei fam eisiau iddo fe wneud rhestr?
Pryd byddan nhw'n cael paned?
Pryd bydd Tomos yn mynd i America?
Pryd bydd Rhys eisiau peint gyda'i ffrindiau?

Tasg fideo / *Video task*

Llenwch y bylchau gyda cyn/ ar ôl.
Fill in the gaps with cyn/ ar ôl.

Mae Miss James yn mynd _____ i Mr Thomas orffen gyda'i apwyntiad nesa.

Dwedodd hi wrtho fe _____ iddi hi adael neithiwr.

Mae apwyntiad gyda Mr Davies _____ cinio.

Bydd apwyntiad Miss Shaw a'r efeilliaid _____ Mr Davies.

Mae Mrs Hughes yn dod _____ Mr Jenkins.

Mae Mr Thomas yn gofyn am asprin _____i Miss James fynd.

Bydd Miss James yn gweld Mr Thomas _____y penwythnos.

Sgript Sain 1 – *Audio Script 1*

Mam: Ar ôl i ti orffen glanhau'r car, Gethin ...

Gethin: Ar ôl i fi orffen glanhau'r car, Mam – dw i'n mynd am beint gyda'r bechgyn cyn i bawb fynd i'r coleg!

Mam: *No way*! Cyn i ti feddwl mynd am beint gyda dy ffrindiau – rhaid i ni ddechrau pacio. Ond cyn i ni ddechrau pacio rhaid i ni wneud rhestr!

Gethin: Gwneud rhestr? Rhestr o beth?

Mam: Rhaid i ni feddwl am bopeth sydd eisiau i fynd i'r coleg.

Gethin: O! Dim ond dillad ... a fy nheledu. *Duvet* a dillad gwely falle …?

Mam: Stopia lanhau'r car yna nawr. A cyn i ni gwympo mas, dere 'ma dw i'n mynd i wneud paned o goffi i ni, ac yna'r rhestr...

Gethin: Ocê, Mam. Chi sy'n ennill.

.....

Mam: Edrycha ar yr stwff yma, Gethin! Oes lle i bopeth yn yr hen gar bach yna?

Gethin: Siŵr o fod, Mam. Gawn ni weld bore yfory.

Mam: Bore yfory? Fydd dim amser gyda ti bore yfory. Gwell i ti bacio'r car heno.

Gethin: Does dim amser gyda fi. Bydd Tomos yn tecstio nawr, ar ôl iddo fe ddweud "ta ta " wrth ei dad-cu.

Mam: Ond mae e'n mynd i America am hanner nos. Fydd dim amser gyda fe i gael peint cyn iddo fe adael.

Gethin: O bydd! Bydd Rhys yn ffonio mewn munud hefyd.

Mam: Fydd e ddim eisiau peint cyn iddo fe ddweud "hwyl fawr" wrth ei gariad.

Gethin: O bydd! Bydd e eisiau peint gyda ni cyn ac ar ôl iddo fe ddweud "hwyl fawr" wrth Emma.

Mam: Beth am Gaz?

Gethin: Bydd e'n galw yma mewn munud, gyda'i stwff.

Mam: Stwff? Pa stwff?

Gethin: Mae Gaz yn dod gyda fi i Abertawe 'fory. Cofio?

Mam: Beth? Mae eisiau ffitio stwff Gaz yn y car hefyd?

Gethin: Mae'n ddrwg gyda fi, Mam, dw i'n mynd. Diolch am eich help.

Mam: Ond Gethin!

Geirfa

rhestr – *list*
cwympo mas – *(to) fall out/ argue*

Sgript Sain 2 – *Audio Script 2*

Miss James: A **cyn** i chi fynd Mr Thomas ...dych chi yn cofio fy mod i'n mynd o 'ma amser cinio, **ar ôl** i chi orffen yr apwyntiad nesa.

Mr Thomas: Beth? Dylet ti fod wedi dweud wrtha i!

Miss James: Dwedais i wrthoch chi rhyw fis yn ôl ...

Mr Thomas: Do fe?

Miss James: Dwedais i wrthoch chi eto yr wythnos diwetha ac eto **cyn** i fi adael neithiwr. Dw i'n mynd ar gwrs .

Mr Thomas: O. Wyt ti? Ym. Iawn. Oes llawer o apwyntiadau'r prynhawn yma?

Miss James: Mae apwyntiad gyda Mr Davies yn syth **ar ôl** cinio. Yna **ar ôl** Mr Davies mae Miss Shaw gyda'i efeilliaid Gill a Rick.

Mr Thomas: O na … dim yr efeilliaid! Ydw i'n gweld Mr Jenkins eto'r prynhawn yma?

Miss James: Ydych, ond cyn hynny mae Mrs Hughes yn dod â'i mam.

Mr Thomas: **Dw i ddim yn gallu gweld pawb** a dim help yn y dderbynfa!

Miss James: Dylech chi fod wedi meddwl am hynny cyn heddiw.

Mr Thomas: Cyn i ti fynd, oes asprin yn y drôr?

Miss James: Dw i wedi gadael bocs llawn i chi ar y ddesg. Gwela i chi ar ôl y penwythnos. Hwyl fawr!

Mr Thomas: Hwyl fawr. O ac … ym...mwynha.

Geirfa

apwyntiadau - *appointments*
efeilliaid – *twins*
derbynfa – *reception*

Atebion - *Answers*

Tasg sain 1 / *Audio task 1*

Pryd bydd Gethin yn mynd am beint? Ar ôl iddo fe orffen glanhau'r car.
Pryd mae ei fam eisiau iddo fe wneud rhestr? Cyn iddo fe fynd am beint
Pryd byddan nhw'n cael paned? Cyn iddyn nhw gwympo mas.
Pryd bydd Tomos yn mynd i America? Ar ôl iddo fe ddweud ta-ta wrth ei dad-cu, am hanner nos.
Pryd bydd Rhys eisiau peint gyda'i ffrindiau? Cyn ac ar ôl dweud hwyl fawr wrth Emma.

Tasg sain 2 / *Audio task 2*

Mae Miss James yn mynd ar ôl i Mr Thomas orffen gyda'i apwyntiad nesa.
Dwedodd hi wrtho fe cyn iddi hi adael neithiwr.
Mae apwyntiad gyda Mr Davies ar ôl cinio.
Bydd apwyntiad Miss Shaw a'r efeilliaid ar ôl Mr Davies.
Mae Mrs Hughes yn dod cyn Mr Jenkins.
Mae Mr Thomas yn gofyn am asprin cyn i Miss James fynd.
Bydd Miss James yn gweld Mr Thomas ar ôl y penwythnos.